

CYNGOR SIR FYNWY

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Llun, 17eg Hydref, 2022, 11.00 am

CYNGHORWYR YN BRESENNOL: Cynghorydd Sirol: Martyn Groucutt, David Jones, Jayne McKenna, Phil Murphy, Maria Stevens, Laura Wright

Cynghorydd Sirol R. Clark

P. James

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Gareth Peel
Richard Williams

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol C. Andrews
H. Morgan

1. Datganiadau o Fuddiant.

Roedd Mr. Penri James, a oedd yn cynrychioli Prifysgol Aberystwyth, wedi datgan buddiant a diddordeb personol ar gyfer pedwar cais gan fyfyrwr a oedd yn astudio cwrs Astudiaethau Ceffylau, sef cwrs breiniol gan Brifysgol Aberystwyth. Nid oedd wedi cymryd rhan felly yn y drafodaeth a'r bleidlais ar gyfer y ceisiadau yma.

2. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Gorffennaf 2022 wedi eu cadarnhau fel cofnod cywrain.

3. Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn ôl pob tebyg yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. (Amgaeir barn y Swyddog Priodol).

Roeddem wedi gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem ganlynol o fusnes, a hynny yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygir, ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth esempt fel sydd wedi ei diffinio ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

CYNGOR SIR FYNWY

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Llun, 17eg Hydref, 2022, 11.00 am

4. Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ynghylch ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn Cronfa Ymddiriedolaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022/23.

Roeddem wedi ystyried 32 cais a gyflwynwyd i'r Gronfa Ymddiriedolaeth, a hynny ar ran y Prif Swyddog ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Cytunwyd y dylid:

- (i) cymeradwyo 27 o'r ceisiadau, fel y cytunwyd, a hynny'n amodol ar dderbyn yr anfonebau priodol a thystiolaeth ohonynt yn mynychu
- (ii) dylid gwneud dyfarniad dros dro i un o'r ceisiadau, a hynny'n amodol ar dderbyn yr anfonebau priodol a thystiolaeth ohonynt yn mynychu. Hefyd, bydd Technegydd Cyfrifeg dan Hyfforddiant Cyngor Sir Fynwy yn gofyn am fwy eglurder gan yr ymgeisydd ynglŷn â'r cais am gyllid.
- (iii) ni ddylid rhoi unrhyw gyllid i un ymgeisydd am ei fod wedi rhoi'r gorau i'r cwrs.
- (iv) oedi ystyried tri chais tan y cyfarfod ym mis Ionawr 2023 o Gronfa Ymddiriedolaeth Waddol Ysgol Fferm Sir Fynwy gan nad oedd cworwm yn y cyfarfod mwyach, ac nid oedd modd ystyried y ceisiadau yma.

5. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Dydd Llun 30ain Ionawr 2023 am 11.00am.